Trychfilod

Anifeiliaid bychan ydy trychfilod y gellir eu gweld mewn gerddi, afonydd, pyllau ac yn y tŷ. Mae yna nifer fawr o wahanol drychfilod i gael fel corynnod, chwilod a glöynnod byw/ieir bach yr haf. Mae gan rai trychfilod nifer o goesau tra bod gan eraill adenydd.





Yn yr ardd

Mae yna nifer o wahanol drychfilod i'w gweld yn ein gerddi. Efallai eich bod wedi gweld gwenyn yn hedfan o amgylch y blodau? Mae gan wenyn streipiau melyn a du i ddangos i anifeiliaid eraill eu bod yn gallu pigo.



Gallwch hefyd weld y glöyn byw/iâr fach yr haf yn hedfan yn ysgafn gyda'i adenydd mawr, lliwgar. Ni welwch löyn byw ifanc am eu bod yn lindys yn gyntaf, cyn troi i löyn byw prydferth. Mae'r lindysyn yn bwyta llawer o fwyd ac yna bydd cragen galed o'r enw chwiler yn tyfu o amgylch ei gorff. Bydd y lindysyn yn aros yn y chwiler tan ei bod yn newid i löyn byw. Mae yna nifer fawr o wahanol ieir bach yr haf/gloÿnnod byw mewn gwahanol liwiau a meintiau.

Yn ogystal â chreaduriaid sy'n gallu hedfan, mae yna drychfilod sy'n llithro ar hyd y ddaear ac i fyny'r waliau. Mae gan falwod a gwlithod gyrff meddal ac maent yn byw ar y ddaear. Mae gan falwod gragen galed ar eu cefnau i'w cadw'n ddiogel. Does dim cragen gan wlithod. Maent yn cuddio o dan ddail i gadw'n ddiogel. Mae gwlithod yn gallu bod yn niwsans mewn gerddi am eu bod yn bwyta planhigion gerddwyr!



Mewn pyllau ac afonydd

Mae trychfilod yn gallu byw wrth ymyl ac mewn

ewch i twinkl.cymru

dŵr, yn ogystal ag ar y tir. Un trychfil sy'n byw ger y dŵr yw gwas y neidr. Mae ganddynt bedwar adain a chorff hir. Mae ganddynt lygaid enfawr ac maent yn gallu gweld pethau sy'n bell, bell i ffwrdd.

Yn eich cartref

Mae yna drychfilod sy'n byw yn ein cartrefi hefyd. Mae corynnod i'w gweld yn aml mewn tai. Maent yn dod o hyd i dyllau a chraciau bach ac yna'n cropian i mewn gan wneud gwe a dodwy wyau. Nid yw corynnod yn beryglus i bobl yn y DU, ond mae pobl yn eu hofni.

ewch i twinkl.cymru

Trychfilod

Anifeiliaid bychan ydy trychfilod y gellir ei darganfod mewn nifer o wahanol gynefinoedd. Maent yn gallu byw mewn dŵr, yn y pridd ac mewn craciau a thyllau bach. Yn y Deyrnas Unedig, mae yna dros 30,000 o wahanol fathau o drychfilod, megis chwilod fel y fuwch goch gota, y lindys a malwod. Maent yn gallu edrych yn wahanol iawn. Mae rhai trychfilod fel y glöyn byw/iâr fach yr haf yn gallu hedfan, lle mae eraill fel y mwydod yn symud o dan y ddaear. Mae yna rywogaethau fel y lindysyn a'r cantroed sydd â chyrff hir a nifer fawr o goesau sy'n byw fel arfer ar ddail.

Yn yr ardd

Mae yna nifer o wahanol drychfilod i'w gweld yn ein gerddi. Gwelir gwenyn yn aml yn hedfan o amgylch y blodau mewn gerddi a pharciau. Maent yn bwysig am eu bod yn casglu paill i wneud mêl ac wrth hedfan o flodyn i flodyn maent yn helpu'r blodau i dyfu. Os oes yn glawdd o amgylch gardd, efallai y dewch o hyd i chwilen gorniog yn cuddio. Rhain yw'r trychfilod mwyaf ym Mhrydain a gallant dyfu hyd at 7cm o hyd. Mae ganddynt gragen galed o amgylch eu corff a cheg fawr

sy'n edrych fel cyrn carw. Nid oes pob chwilen mor fawr a hyn. Mae'r rhan fwyaf o chwilod yn ein gerddi yn fach. Maent yn hoffi byw mewn hen ddail sy'n pydru neu risgl lle na allant gael eu gweld.

Mewn pyllau ac afonydd



Amgylchedd arall lle gellid gweld amrywiaeth mawr o drychfilod amrywiol yw ger pyllau neu afonydd. Mae yna greaduriaid sy'n byw ger y dŵr sy'n debyg i'r rhai a welir yn ein gerddi. Mae gelenod yn debyg iawn i wlithod. Mae ganddynt gyrff meddal sy'n gallu ymestyn

ewch i twinkl.cymru

ac maent yn byw mewn afonydd a chorsydd. Mae nifer o drychfilod yn dechrau bywyd fel larfa (babanod) yn y dŵr ac yna pan maent wedi tyfu'n oedolyn maent yn gallu hedfan neu fyw ar y tir. Mae trychfilod fel y gwas y neidr a'r gwybedyn mai yn tyfu o larfa i drychfil mawr gyda phedwar adain. Maent yn byw ar y borfa neu'r hesg sydd o amgylch y dŵr.

Aros yn fyw

Does dim sgerbwd gyda'r rhan fwyaf o drychfilod fel sydd gyda ni. Mae ganddynt gragen allanol sy'n amddiffyn eu cyrff. Fodd bynnag, mae cyrff rhai trychfilod yn feddal. Mae'r creaduriaid yma yn ceisio cuddio neu ddefnyddio cuddliw i guddio ymysg y planhigion o'u hamgylch. Mae cyrff gwlithod yn feddal i gyd ac mae adar ac ysglyfaethwyr eraill yn gallu eu bwyta'n hawdd. Mae gan falwod gragen galed ar eu cefnau ac felly maent yn gallu cuddio ynddo os ydynt o dan fygythiad. Er nad yw'n boblogaidd yn y DU, mae malwod yn cael eu bwyta mewn rhai gwledydd fel Ffrainc.

ewch i twinkl.cymru

Trychfilod

Grŵp o anifeiliaid yw trychfilod sy'n greaduriaid di-asgwrn cefn sef infertebrat. Term yw hyn am anifeiliaid sydd heb asgwrn cefn. Maent yn gallu byw a thyfu mewn mannau na all anifeiliaid eraill wneud, megis mewn tyllau a chraciau bach mewn waliau ac yn y pridd o dan ein traed. Yn y Deyrnas Unedig, mae yna dros 30,000 o wahanol fathau o drychfilod, megis chwilod fel y fuwch goch gota, y lindys a malwod. Mae yna amrywiaeth helaeth o drychfilod gyda'i edrychiad yn amrywio'n fawr. Mae rhai rhywogaethau, fel y fuwch goch gota yn gallu agor eu cragen i ryddhau adenydd, gan ganiatau iddynt hedfan. Mae eraill fel y mwydyn yn gallu cynhyrchu sleim, sy'n caniatau iddynt symud yn rhwydd o dan ddaear. Mae yna hefyd rywogaethau fel y lindys miltroed sydd â chyrff hir iawn â nifer fawr o goesau. Mae rhai fel chwilod â chuddliw sy'n caniatau iddynt guddio ymysg dail a brigau.



Yn yr ardd

Gellid gweld nifer helaeth o drychfilod mewn gerddi. Gwelir gwenyn a gwenyn mêl o amgylch blodau. Maent yn hynod bwysig ar gyfer bywyd yr ardd gan eu bod yn casglu paill i wneud mêl ac wrth hedfan o un blodyn i'r llall, maent yn trosglwyddo paill i'r rhan o'r planhigyn sydd eu hangen ar gyfer cynhyrchu mwy o flodau. Dyma'r broses o beillio.

Mae angen yr amodau cywir a'r trychfilod i ffynnu. Os oes gan ardd neu barc glawdd o'u hamgylch, efallai y byddwch yn ddigon ffodus i weld chwilen gorniog. Rhain yw'r trychfilod mwyaf ym Mhrydain a gallant dyfu hyd at 7cm o hyd. Mae ganddynt gragen galed o amgylch eu corff a elwir yn ysgerbwd allanol a cheg fawr sy'n edrych fel cyrn carw. Mae dod o hyd i chwilen fel hyn yn mynd yn anoddach gan ei bod yn brin iawn. Cyn hir, bydd y rhywogaeth hon wedi diflannu o'r Deyrnas Unedig am byth. Serch hyn, gellid gweld chwilod sy'n llai o faint yn ein gerddi. Maent yn hoffi byw mewn llefydd llaith a thywyll. Maent yn arbennig o hoff o guddio mewn hen ddail sy'n pydru neu bren, gan fod yna fwyd ac mae'n ddiogel i fyw yno.

ewch i twinkl.cymru

Mewn pyllau ac afonydd

Gwelir trychfilod mewn pyllau ac afonydd hefyd. Mae yna drychfilod sy'n treulio'u bywyd cyfan yn byw ar neu ger y dŵr. Bywyd byr sydd gan y trychfilod yma, yn byw am flwyddyn neu lai. Mae nifer o drychfilod yn dechrau bywyd fel larfa (babanod) yn y dŵr ac yna pan maent wedi tyfu'n oedolyn maent yn gallu hedfan neu fyw ar y tir. Mae trychfilod fel y gwas y neidr a'r gwybedyn mai yn tyfu o larfa i drychfil mawr gyda phedwar adain. Maent yn byw ar y borfa neu'r hesg sydd o amgylch y dŵr. Mae rhai corynnod yn byw mewn dŵr a gan nad oes tagellau ganddynt fel pysgod i anadlu mae ganddynt ffordd glyfar o gael yr aer sydd angen arnynt i anadlu. Maent yn creu gwefannau ar wyneb y dŵr ac yna'n casglu swigod o aer i'w lenwi. Maent yn defnyddio'r swigod o aer i anadlu pryd bynnag y maent eisiau!



ewch i twinkl.cymru